

---

## PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD GWENER, 16 MEDI 2016

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorwyr, Stephen Churchman, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Brian Jones, Eric M. Jones, Michael Sol Owen, W Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, John Wyn Williams a R.H. Wyn Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd am 2016/17.

### 2. ETHOL IS GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd R H Wyn Williams yn Is Gadeirydd am 2016/17.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 o Chwefror 2016 fel rhai cywir.

### 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r

**wybodaeth yn eithriedig.**

**8. LLENWI SWYDD WAG PENNAETH OEDEOLION, LECHYD A LLESIANT**

Yn dilyn, ymddeoliad cynnar Mrs Gwenan Parry, Pennaeth Oedolion, lechyd a Llesiant oherwydd salwch hir dymor, cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn argymhell y Pwyllgor i ystyried dau opsiwn ar gyfer llenwi'r swydd.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i Mrs Gwenan Parry am y gwasanaeth a roddodd i drigolion Gwynedd a dymunwyd y gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth am yr opsiynau, ynteu i hysbysebu'n allanol neu gadarnhau Mr Aled Davies i'r swydd yn parhaol (ac yntau wedi bod yn gwneud y swydd dros dro ers 18 mis), cynigiwyd ac eiliwyd i Mr Aled Davies fod yn Bennaeth Oedolion, lechyd a Llesiant ar gytundeb parhaol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL CADARNHAU MR ALED DAVIES I SWYDD PENNAETH OEDOLION, IECHYD A LLESIANT YN BARHAOL**

Yn dilyn y penderfyniad, nodwyd y byddai swydd y Pennaeth Rheoleiddio bellach yn dod yn rhydd a bod angen symud ymlaen i lenwi'r swydd drwy hysbysebu yn y ffordd arferol.

---

**CADEIRYDD**